Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
9fed Gorffennaf 2013

Teitl y Papur	**Cyfamodau Cadwraeth – Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 23.13**
Noddwyd y Papur Gan: **Awdur y Papur Yw:**	Trefor Owen Mari Sibley

Pwrpas y Papur:	**Trafodaeth / Penderfyniad**
Argymhelliad:	1. Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi creu trefn o gyfamodau cadwraeth statudol. 2. Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol ei fod wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori fel corff cyhoeddus sy'n debygol o gael ei enwebu gan Weinidogion Cymru i ymrwymo i gyfamodau cadwraeth, eu rheoleiddio a'u gorfodi. 3. Na ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru ond derbyn yr enwebiad ar yr amod ei fod yn gallu adennill ei gostau'n llawn.
Penderfyniad a Geisir:	Bod y Bwrdd yn cefnogi'r Argymhellion

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**:Bydd dull cyfreithiol syml o warchod neu wella gwerth cadwraethol tir yn cael effaith gadarnhaol ar weithgareddau cadwraeth preifat. **Effaith ar yr Economi**:Bydd dull o sicrhau y bodlonir ymrwymiadau gwrthbwyso bioamrywiaeth yn hwyluso datblygu tir a chynyddu ei werth mewn ardaloedd sy'n rhwym wrth gyfamodau cadwraeth. **Effaith ar y Gymuned**:Bydd unigolion a grwpiau yn gallu ymrwymo i gyfamodau gyda Gweinidogion Cymru i warchod tir a gaiff ei ddefnyddio gan gymunedau. **Effaith ar Wybodaeth**:Bydd cofrestr o gyfamodau cadwraeth ar diroedd sydd mewn perchnogaeth breifat yn gwella gwybodaeth am ymdrechion cadwraeth ac yn helpu gyda'r gwaith o gasglu data.

Mater dan sylw

1. Mae Comisiwn y Gyfraith, corff a noddir gan Lywodraeth y DU, wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori i gael barn ynghylch creu cyfamodau cadwraeth yng Nghymru a Lloegr.Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o'r prif ymgyngoreion.Mae'r ddogfen yn cynnig y gellir llunio cyfamod cadwraeth rhwng Gweinidogion Cymru a pherchnogion tir preifat. Yna bydd Gweinidogion Cymru yn enwebu 'corff cyfrifol' sydd â'r diben o warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a'i adnoddau naturiol i reoli a gorfodi'r cyfamod. Mae'r ymgynghoriad yn enwi Cyfoeth Naturiol Cymru fel 'corff cyfrifol' posibl ynghyd ag elusennau priodol megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol.

2. Mae'r papur hwn yn nodi'r swyddogaethau y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru eu cyflawni pe bai'n cael ei benodi yn 'gorff cyfrifol' ynghyd â chyfleoedd a goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau.

Cefndir

3. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fodd cyfreithiol syml y gall perchnogion tir preifat ei ddefnyddio i ddiogelu tir at ddibenion cadwraeth neu i rwymo perchnogion yn y dyfodol i rwymedigaethau cadwraeth.

4. Mae Comisiwn y Gyfraith yn bwriadu creu cynllun cyfamodau cadwraeth statudol.Bydd cyfamod cadwraeth yn gytundeb preifat gwirfoddol i greu rhwymedigaeth hirhoedlog i warchod a gwella nodweddion arbennig darn o dir. Bydd y cyfamod yn rhwymo pob perchennog tir yn y dyfodol a'r unig ffordd y gellir codi neu amrywio hyn yw drwy gytundeb rhwng y partïon neu drwy benderfyniad gan Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys.

5. Gallai perchnogion tir ddefnyddio cyfamodau cadwraeth (i) fel ffordd o ddarparu rhwymedigaeth gwrthbwyso barhaol fel rhan o amod cynllunio ar gyfer datblygu (ii) fel dewis arall yn hytrach na chyfraniad ariannol neu (iii) fel ffordd o sicrhau taliad am waith cadwraeth. Er enghraifft, gellid rhoi taliad i ffermwyr yn gyfnewid am gyfamod cadwraeth i beidio â defnyddio plaladdwyr cemegol ar dir sydd wrth ymyl dôl ac afon.

Efallai y bydd cyrff cyhoeddus yn dymuno defnyddio cyfamodau cadwraeth i warchod elfennau ar dir sydd wedi'i werthu i ddatblygwr preifat.

6. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau cyfamodau cadwraeth statudol yn bodoli yn yr Alban, UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd ac mae'r rhain wedi profi i fod yn ddulliau defnyddiol o ran gwarchod tir a hybu ymdrechion cadwraeth preifat. Ar hyn o bryd mae 263 o gyfamodau cadwraeth wedi'u cofrestru gan Weinidogion yr Alban.

Cynigion

7. Os cytunir ar yr Argymhellion, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb yn gadarnhaol i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith a chefnogi rhoi'r cynllun statudol ar waith, yn amodol ar gael Cymorth Grant ychwanegol tuag at adfer y gost yn llawn. Yna, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru weithio â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i gytuno ar delerau ar gyfer yr enwebiad fel 'corff cyfrifol'.Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn cadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ond maent yn cytuno ei bod yn debygol mai Cyfoeth Naturiol Cymru a gaiff ei enwebu fel 'corff cyfrifol'.

Risgiau

8. Mae Comisiwn y Gyfraith yn rhagweld y bydd y 'corff cyfrifol' yn cyflawni ystod o swyddogaethau ar ran y Gweinidog.Mae'r rhain yn cynnwys rhoi cyngor i'r perchennog tir ar natur y cyfamod a thrafod a chytuno ar ei delerau, monitro a rheoleiddio'r cyfamod a gweithredu ar unrhyw dor-amod.Bydd y camau a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn yn destun adolygiad barnwrol a risg o ran enw da.

Goblygiadau Ariannol

9. Ni ddylai Cyfoeth Naturiol Cymru ond cytuno i weithredu fel y corff cyfrifol ar yr amod gaeth ei fod yn gallu adfer ei holl gostau gweinyddol drwy Gymorth Grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Elfennau mwyaf costus y swyddogaeth fyddai'r ffioedd cyfreithiol a fyddai ynghlwm â chreu dogfen y cyfamod ac unrhyw gamau gorfodi. Pe bai'n angenrheidiol i Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am waharddeb i atal gweithgaredd a fyddai'n torri cyfamod, gallai'r costau cyfreithiol fod rhwng £2,000 a £10,000.

10. Mae ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith yn nodi Seland Newydd fel enghraifft lle ceir 95.1% o ymlyniad i 1,723 o gyfamodau ond mae hefyd yn nodi bod y tebygolrwydd o dor-amodau yn cynyddu ychydig pan mae tir yn newid dwylo.Felly, mae Comisiwn y Gyfraith yn disgwyl gweld cynnydd bychan yn yr angen i gymryd camau gorfodi wrth i'r cyfamodau aeddfedu.

11. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru liniaru ar y goblygiadau ariannol ychwanegol drwy drafod a chytuno ar delerau o ran talu ei gostau cyfreithiol yn sgil sefydlu'r cyfamod gyda'r perchennog tir a hawlio ad-daliad am ganran o'r costau yng nghyswllt achosion llys llwyddiannus.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiad

12. Byddai cyfamodau cadwraeth yn gynllun statudol gyda'r dyletswyddau cysylltiedig wedi'u gwreiddio yn y ddeddfwriaeth alluogi.

13. Nodir materion cyfreithiol eraill, megis gorfodi, ym mharagraff 9.

14. Mae adolygiad barnwrol o'r camau a gymerwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel y corff cyfrifol ar gael fel rhwymedi i barti sydd â digon o statws.

Cyfathrebu

15. Llunnir dogfen ymgynghori Comisiwn y Gyfraith yn derfynol yn dilyn penderfyniad y Bwrdd.

17. Llunnir strategaeth cyfathrebu i roi cyngor i berchnogion tir sydd â budd ac er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cynllun statudol newydd.

Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

Nid oes angen asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yng nghyswllt y cynnig hwn.

Atodiad 1

Mae Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfamodau Cadwraeth i’w weld yn

http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/conservation-covenants.htm